# SL(6)539 - Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024

## Cefndir a diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, fel ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Fe'i cynlluniwyd ar y cyd gan y pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr lleihau allyriadau yng Nghymru.

Yn 2022, ymgynghorodd yr Awdurdod ar ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau y DU. Roedd Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer o ymrwymiadau amser-gritigol a roddwyd ar waith drwy'r Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023 (Prydain Fawr yn unig, yn y naill achos a'r llall) a thrwy Reoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, a ddeddfwyd gan Lywodraeth y DU. Datrysiadau dros dro oedd y rhain, yr oedd eu hangen oherwydd nad oedd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn eistedd.

Mae'r diwygiadau arfaethedig sydd i'w gwneud gan y Gorchymyn hwn, bellach yn ymgorffori'r rhain yn y ddeddfwriaeth ETS ar sail pedair gwlad. At hynny, mae'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn yn cynnwys ymrwymiadau tebyg i ehangu cwmpas allyriadau a gwelliannau i ddarpariaethau gorfodi'r cynllun.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu ac yn diwygio'r ETS yn y ffyrdd a ganlyn:

- Mae'n ehangu cwmpas y cynllun i gynnwys allyriadau prosesau yn sgil awyru CO2 o'r sector olew a nwy i fyny'r afon;
- Mae'n cyflwyno hysbysiad gorfodi newydd a elwir yn hysbysiad diffyg ("deficit notice"), ac yn cyflwyno cosb sifil newydd yn ogystal â newid cosbau sifil presennol er mwyn sicrhau cysondeb;
- Mae'n ehangu cwmpas gweithgaredd hedfan Cynllun Masnachu Allyriadau y DU i gynnwys teithiau hedfan o Ogledd Iwerddon i'r Swistir; ac
- Mae'n ymestyn yr ETS Tŷ Gwydr i Ogledd Iwerddon.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Fawrhydi.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

Nodwn y cafodd y Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor ei osod gan Ei Fawrhydi gerbron pob un o'r pedair deddfwrfa yn y Deyrnas Unedig, ac felly mae yn Saesneg yn unig.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.